



**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol o gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle
Trawsfynydd a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2024**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd ddiweddariad byr ar faterion ers y cyfarfod diwethaf.
2. Cyflwynodd Thomas G Williams Adroddiad Cyfarwyddwr Safle'r NRS
3. Cyflwynodd Tanya MacLeod ddiweddariad gan y Swyddfa Reoleiddio Niwclear (ONR).
4. Rhoddodd Iwan Williams adroddiad ar y cyd-adroddiad CNC / Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) a ddosbarthwyd yn flaenorol.
5. Cyflwynodd Dave Wallace ddiweddariad ar faterion yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA).



Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd
Dydd Iau, 12 Rhagfyr 2024, 13.00 o'r gloch
Canolfan Gynadledda

COFNODION

PRESENNOL

NAME

Cyng. Keith O'Brien,
T G Williams
Elin P Jones
Richard Owen
Steve Parry
Rory Trappe
Beryl Williams
Jonathon Jenkins
David Wallace
Tanya MacLeod
Katie Chandler
Iwan R Jones
Arron Jones
Gerallt Rhun
Colin Tucker
Lisa Birks
Cyng. D M Williams
Cyng. John L. Richards

SEFYDLIAD

Cyngor Cymuned Trawsfynydd (Cadeirydd)
Cyfarwyddwr Safle
NRS
NRS
NRS
Grŵp Ymddeoledigion Trawsfynydd
Grŵp Ymddeoledigion Trawsfynydd
NDA
NDA
ONR
ONR
Cyngor Gwynedd
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (NWF&R)
Trawsfynyddnewid
Preswyllydd Penrhyn
Cwmni Eginio
Cyngor Cymuned Maentwrog
Cyngor Cymuned Talysarnau

Yn Mynychu

Aled Job Cymen - Cyfieithydd
Sydna Roberts Cymen – Cymerwr cofnodion

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod am 1pm.

Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol: -

Bill Hamilton - Cyfarwyddwr Materion Allanol NRS
Mair Jones - Arweinydd Economaidd Gymdeithasol NRS ar gyfer Cymru a'r Alban
Cath Pritchard – Ysgrifennydd a Chydlunydd Cyfathrebu GRhS NRS
Kate Simpson – Asiantaeth yr Amgylchedd
Gwen Pettifor – Sefydliad y Merched
Meryl Roberts – Ward Penrhyndeudraeth
Cyng. Elfed Roberts, Cyngor Gwynedd
Cyng. Gwynfor Owen, Cyngor Gwynedd

Ni dderbyniwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddion.

2. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2023

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2024 a'u derbyn fel cofnod cywir.

3. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2024

Ni chodwyd unrhyw un.

4. Anerchiad y Cadeirydd

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ohebiaeth a dderbyniodd oddi wrth Gwen Pettifor sydd wedi cynrychioli Sefydliad y Merched Gwynedd a Meirionydd ar y Grŵp Rhanddeiliaid Safle ers sawl blwyddyn. Nododd ei bod yn dymuno dirwyn ei chyfnod ar y Grŵp Rhanddeiliaid Safle i ben. Cytunwyd i ysgrifennu at Ms Pettifor i ddiolch iddi am ei chyfraniad gwerthfawr i'r SSG ac i dderbyn ei chynnig i anfon enwebai arall ymlaen.

Aeth ymlaen wedyn i adrodd ar ddigwyddiadau a ddigwyddodd ers y GRhS diwethaf.

- Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid yr NDA 2024 – 17/18 Medi 2024 ym Manceinion
- Cyfarfod Fforwm y Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ddydd Gwener 29 Tachwedd 2024
- Digwyddiad deuddydd grŵp Undebwyr Llafur dros Ynni Niwclear Diogel (TUSNE) yn Llandudno. Rhoddodd Mr Rory Trappe adroddiad byr ar y digwyddiad, a gynhaliwyd gyda chefnogaeth NEA ac EDF. Cynrychiolwyd Cwmni Egino, Cyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru ac NIA hefyd. Cynhaliwyd trafodaethau ar Wylfa, Prosiect Arthur a datgomisiynu. Nododd fod Cymru, yn ei farn ef, yn dirywio'n gyflym iawn o ran cyfleoedd cyflogaeth ynni niwclear oherwydd diffyg buddsoddiad.

5. Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Trawsfynydd – Thomas G Williams

Cyflwynodd Thomas G Williams, Cyfarwyddwr Safle ei adroddiad wedi'i grynhoi fel a ganlyn:

Ffocws ar Ddiogelwch

Nodwyd y bu 3053 o ddiwrnodau heb anaf amser coll o ganlyniad i waith helaeth sy'n cael ei wneud yn barhaus i sicrhau diogelwch o'r safon uchaf.

Ein Pobl

	Nifer ar y safle
NRS	180

Contractwyr Altrad x 16 / J N Bentley x 7 / Nuvia x 17 / MITIE x 35 / Element x 7
 Asiantaeth 10 (+ 12 CSW)
 MSO 38 (1 x ASW; 7 x CSW; 26 x EMPL; 3 x PCH)
 Prentisiaid 9 (5 x Crefftwyr Cynnal a Chadw 4 x Gwarchod rhag Ymbelydredd)
 Cynnal a Chadw = 3 x Mecanyddol; 2 x Trydanol.
 Graddedigion Mae 2 wedi'u penodi'n Beirianwyr Cynorthwyol ar ôl cwblhau eu
 Cynllun Gradd

Iechyd a Lles

Cyfeiriodd TW at grŵp Iechyd a Lles rhagweithiol iawn ar y safle sy'n cynnal gweithgareddau rheolaidd ar gyfer yr holl weithlu. Enghreifftiau o hynny oedd -

- Sesiynau Cinio a Dysgu yn cael eu rhannu gyda safle Wylfa
- Dangos Migraines and Headaches yn y sinema
- Diwrnod Restart a Heart
- Ffair Nadolig y Safle gyda stondinau gan fusnesau/crefftau lleol i hybu cydlyniant cymunedol.

Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd

Casglu Sbwriel Blynnyddol – Bu Casgliad Sbwriel Blynnyddol Trawsfynydd ar gyfer 2024 ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn llwyddiant ysgubol gan arwain at gasglu 1 tunnell o wastraff. Roedd hefyd yn ddigwyddiad cymdeithasol i staff gyda bwyd stryd a hufen iâ yn cael ei rannu ar ddiwedd y dydd.

Cyfeiriodd TW hefyd at brosiect ailgylchu safle Trawsfynydd gyda dangosyddion cynnar yn dangos cynnydd mewn cyfraddau ailgylchu, sydd yn ei dro'n cadarnhau'r ymdrechion mawr i baratoi'r ffordd ar gyfer dyfodol gwyrddach.

STEM (Gwyddoniaeth Technoleg Peirianeg a Mathemateg)

Ym mis Gorffennaf, croesawodd Trawsfynydd dros 20 o fyfyrwyr PhD o Ganolfannau Hyfforddiant Doethurol Niwclear. Nod yr ymweliadau oedd addysgu'r myfyrwyr am hanes Trawsfynydd ym maes cynhyrchu trydan, a'i ymdrechion datgomisiynu presennol. Aeth y myfyrwyr ar daith o amgylch y safle, dysgu am waith datgomisiynu, ac archwilio cyfleoedd gyrfa gydag NRS. Y flwyddyn academiaidd hon bydd naw ysgol uwchradd yn cael eu croesawu i'r safle.

Prosiectau Cyfredol

Mae'r prosiectau cyfredol wedi'u crynhoi fel a ganlyn:–

- Uchafbwyntiau Adnewyddu Canolfan Ymwelwyr Trawsfynydd - gan arwain at gyfleusterau gwell a fydd yn cael eu cynnig at ddefnydd y gymuned ehangach yn y dyfodol.
- Cyflenwad Gwastraff Actif Ise! – nodwyd bod 7 cyflenwad wedi eu hanfon gyda'r nod o anfon cyfanswm o 14 erbyn diwedd Mawrth 2024.

- Malurion Elfen Tanwydd y De - Tîm Gweithrediadau Gwastraff Uchel ei Actifedd yn bwrw ymlaen â chomisiynu gweithredol yr ymgyrch LPW yn FED y De.
- Rheolaeth Asbestos – Cynnydd sylweddol o ran Glanhau Amgylcheddol Asbestos yn isloriau'r adweithyddion.
- Gwaith carthion newydd – mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i gwblhau'r camau terfynol o ran comisiynu gweithredol ar gyflwr terfynol y gwaith carthion segur.
- Ailgyflunio Diogelwch Safle – mae'r timau Cynnal a Chadw a Rheoli Cyfleusterau yn cefnogi wrth dileu rhan o'r Pwynt Rheoli Mynediad (ACP), fel gwaith galluogi i hwyluso'r prif waith prosiect i'w gwblhau yn gynnar ym mis Ionawr 2025.
- Ailgyflunio system cyflenwi trydan y safle – mae cynnydd sylweddol o ran ailgyflunio system cyflenwi trydan y safle ar gyfer prosiect Lleihau Uchder yr Adweithydd. Proses ynysu ar amser, disgwylir ei chwblhau ym mis Ionawr 2025.
- Dymchwel a Gwaredu Cymhlethfa'r Pyllau (PCDD) – mae cais am drwydded yn barhaus a chynhelir trafodaethau rheolaidd gyda phartneriaid. Esboniodd TW y gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma ynglŷn â Chromenni Resin 2&3, gan nodi bod gwaith pellach, mwy cymhleth i'w wneud.
- Ymgynghori Cyn Ymgeisio – mae ymgynghoriad cymunedol wedi digwydd a bydd yn parhau yn y dyfodol.
- Lleihau Uchder yr Adweithydd – Amlinellodd TW yr amserlen ar gyfer y cam caffael, a rhagwelir y bydd y gwaith ffisegol yn dechrau yn hwyr yn 2025, a'r prosiect yn para 3 blynedd.
- EIADR Datgomisiynu adweithyddion – cynhelir Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd yn gynnar ym mis Chwefror 2025. Bydd yr ONR yn ceisio sylwadau ar yr Adroddiad Cwmpasu a'r Datganiad Amgylcheddol gan y Grŵp Rhanddeiliaid Safle. Bydd hyn yn sicrhau yr eir i'r afael â ffactorau amgylcheddol sy'n bwysig i randdeiliaid.
- Spot y ci – defnyddio cŵn robotig SPOT yn llwyddiannus i alluogi mynediad i darian bio Trawsfynydd i gasglu LIDAR a delweddau fideo ar gyfer datgomisiynu. Rhannodd TW fideo byr a amlygodd bŵer trawsnewidiol technoleg a chydweithio wrth gyflawni nodau datgomisiynu cynaliadwy.

Edrych Ymlaen

Pontio Rheolaeth Gorsaf Ynni Dŵr Maentwrog - pontio o Wylfa i Drawsfynydd oherwydd agosrwydd Trawsfynydd sy'n hwyluso gwell cefnogaeth. Y buddion fydd gwell rheolaeth ar adnoddau a gwell effeithlonrwydd gweithredol. Adroddodd TW ar gyfarfod pontio cadarnhaol da yr wythnos diwethaf.

Diweddariad economaidd-gymdeithasol

Ras Antur ITERA-lite – Cynhaliodd Gogledd Cymru y ras antur aml-ddisgyblaeth 2-3 diwrnod ym mis Gorffennaf. Gwasanaethodd Trawsfynydd fel canolbwynt pontio i dimau, gan ddarparu canolfan berffaith ar gyfer y digwyddiad. Roedd tua 160 o gyfranogwyr o bob rhan o'r byd.

Prosiect y Ddraig Goch – mae caniatad cynllunio wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer estyniad £4m i'r lein i ganol tref y Bala. Ategwyd hyn gan gyllid NRS o £98,515 dros y blynyddoedd.

Cyllid Cymydog Da - Dyfarnwyd £2k i Gôr y Brythoniad er mwyn iddynt allu cynhyrchu 2 gryno ddisg. Mae Clwb Tractor ac Injan Hynafol Cenedlaethol Meirionydd (NVTEC) wedi derbyn £1,000 ar gyfer gasebo brand NRS i wella ymwybyddiaeth clwb mewn digwyddiadau lleol.

Cyflwynodd TW Mr Steve Parry Pennaeth Ymbelydredd yn Nhrawsfynydd a roddodd gyflwyniad ar Adolygiad Rhaglen Monitro Amgylcheddol Trawsfynydd. Eglurodd fod angen adolygu'r rhaglen bresennol oherwydd y gostyngiad mewn lefelau risg. Crynhodd y newidiadau i'r rhaglen fonitro fel a ganlyn:

- Brithyll Seithliw yn cael ei samplu deirgwaith y flwyddyn (i adlewyrchu'r tymor pysgota agored), Brithyll Brown yn cael ei samplu unwaith y flwyddyn (oherwydd diffyg argaeledd).
- Bydd y samplu Gwaddod Glan y Llyn presennol yn parhau. Fodd bynnag, bydd samplu Gwaddod Gwely'r Llyn yn dod i ben oherwydd bod samplu glan y llyn yn darparu gwybodaeth ddigonol a bod risg anghymesur i weithredwyr sy'n casglu samplau gwely.
- Bydd samplu mwsogl yr afon yn parhau yn Afon Tafarn-helyg unwaith y flwyddyn, ond bydd samplu i fyny'r afon yn Afon Prysor yn dod i ben oherwydd risg diogelwch mynd i mewn i'r dŵr, a mecanwaith annigonol i weithgarwch safle fod yn bresennol i fyny'r afon.
- Mae cyfraddau dos gama o samplau sbot yn debyg i lefelau cefndir. Felly, bydd samplu cyfradd dogn gama yn cael ei leihau i bedwar lleoliad sampl ddwywaith y flwyddyn, dau ar lan y llyn a dau yn yr amgylchedd.
- Bydd samplu dŵr llynnoedd yn cael ei leihau o fisol i chwarterol yn y lleoliadau presennol gan fod y lefelau gweithgarwch dros y 5 mlynedd diwethaf wedi bod yn isel iawn gydag ychydig o amrywiaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i TW ac SP am eu hadroddiadau, a gofynnodd yn garedig am esboniad o'r derminoleg mewn adroddiadau yn y dyfodol er mwyn hwyluso dealltwriaeth gliriach i'r rhanddeiliaid. Yna gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau o'r llawr.

Sesiwn Holi ac Ateb.

Y Cyng. MW - holodd a oedd y cais Cymhlethfa'r Pyllau wedi bod i Bwyllgor Cynllunio'r Awdurdod Lleol. Dywedodd TW y bydd yn cael ei gyflwyno o fewn y 6 wythnos nesaf. Cytunodd hefyd i gais MW am gyflwyniadau ar ddatblygiadau i bob Cyngor Cymuned Lleol.

Rory Trappe – holodd a oedd unrhyw ffigurau cyflogaeth i law ynglŷn â gwaith Lleihau Uchder Adweithydd. TW – ailadroddodd fod y ffurflen tendr terfynol i'w dychwelyd ar 19.12.24. pan ellir cadarnhau'r ffigurau gwirioneddol, fodd bynnag, disgwylir i'r ffigwr fod tua 100 gyda'r mwyafrif yn lleol, yn enwedig gweithwyr Haen 3/4.

Colin Tucker – cyfeiriodd at Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr yn lleihau terfynau gollwng. Cadarnhaodd IW nad oedd unrhyw gynigion ar gyfer gostyngiadau.

Beryl Williams – holodd a oedd unrhyw enillion ariannol o drosglwyddo Maentwrog i Drawsfynydd. Eglurwyd, yn unol â'r Ddeddf Ynni, bod yr holl gyllid yn cael ei reoli o un ffynhonnell.

Gerallt Rhun – gofynnodd beth oedd y nifer gweithlu presennol ar gyfer Maentwrog . Dywedodd TW fod 7 aelod o staff ar hyn o bryd. Nododd hefyd y bydd Andy MacAteer, y Rheolwr Safle, yn ymddeol o fewn y 12 mis nesaf a bod dau aelod o staff o Drawsfynydd a Wylfa yn cael eu hyfforddi i gymryd y swydd. Bydd niferoedd staff yn aros fel ag y maent yn y tymor byr.

6. Adroddiad gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear – Tanya MacLeod

Croesawyd Tanya McLeod i'r cyfarfod a hysbysodd yr aelodau y bydd yn gadael ei swydd yn fuan. Cyflwynodd Kate Chandler a fydd yn Arolygydd Safle Enwebedig newydd yr ONR ar gyfer Trawsfynydd. Rhannwyd yr adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 24 – 30 Medi 24 gyda'r aelodau yn flaenorol, ac ni amlygwyd unrhyw feysydd o bryder yn dilyn arolygiadau arferol o fewn y cyfnod.

Sesiwn Holi ac Ateb.- dim wedi'i dderbyn

Diolchodd y Cadeirydd i TM am ei diweddariad, dymunodd yn dda iddi yn ei swydd newydd a chroesawodd Kate Chandler i'r grŵp.

7. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru – Iwan Williams

Croesawyd Iwan Williams i'r cyfarfod gan nodi bod ei adroddiad wedi'i ddosbarthu'n flaenorol gyda phapurau'r cyfarfod. Croesawodd gyflwyniad Steve Parry. Nododd hefyd fod David Wilby bellach wedi gadael CNC i swydd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd. Bydd y swydd wag yn cael ei phenodi o fewn y misoedd nesaf. Diolchodd y Cadeirydd i IW am ei ddiweddariad.

Sesiwn Holi ac Ateb - dim wedi'i dderbyn

8. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear – Dave Wallace

Croesawyd Dave Wallace i'r cyfarfod a chrynhodd ei adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol gyda phapurau'r cyfarfod.

- Mae'r NDA wedi cyfarfod ag Ed Miliband, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Sero Net yr wythnos diwethaf, ac roedd yn canmol y gwaith a wnaed o amgylch holl safleoedd y DU.

- Mae adolygiad gwariant yr NDA yn cael ei gynnal ar hyn o bryd - nid yw'r dyraniadau'n hysbys eto.
- Gweithio'n agos gyda'r NIA i sefydlu Grŵp Trawsbleidiol ar y Diwydiant Niwclear Sifil yn y Senedd, i efelychu model yr Alban.
- Adolygiad GRhS – ar hyn o bryd yn adolygu'r canlyniadau i rannu arferion da. Bydd yr NDA yn gweithio gyda GRhSau unigol i sicrhau cynrychiolaeth gywir.
- Bydd Strategaeth 5 yn cael ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2026 yn dilyn ymgynghoriad.
- Gwahoddwyd cynrychiolwyr o Gwmni Eginio, Cyngor Sir Gwynedd a Phrifysgol Bangor i Chapel Cross i weld y parc ynni gwyrdd.

Sesiwn Holi ac Ateb.

Rory Trappe – holodd am ffynonellau ynni/pŵer. Cydnabu DW fod pŵer yn broblem ar draws y DU a bod llawer o waith i'w wneud o ran seilwaith pŵer.

Colin Tucker – holodd a oedd yr Aelod Senedd lleol, Mabon ap Gwynfor, yn rhan o'r grŵp trawsbleidiol arfaethedig. Cadarnhaodd DW nad oedd.

Y Cyng. JR – nododd fod SSEN wedi clustnodi £10m ar gyfer budd cymunedol lleol yn eu hardaloedd Gorsafoedd Dŵr, a gofynnodd a fydd hyn yn cael ei efelychu yn ein hardal ni.
Cytunodd DW i ymholi ymhellach ac adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol.

9. Diweddariad gan Gwmni Eginio

Croesawyd Lisa Birks i'r cyfarfod a chyflwynodd adroddiad yn absenoldeb Elliw Williams. Diweddarodd yr aelodau fel a ganlyn:-

Atgoffodd yr aelodau fod Cwmni Eginio wedi ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru i edrych ar yr opsiwn o ddatblygiad niwclear ar raddfa fechan ar safle Trawsfynydd. Cyflwynwyd cynnig busnes i Lywodraeth y DU yn 2022. Yn 2023 y flaenoriaeth ar gyfer Great British Nuclear (GBN) oedd arwain y broses o ddewis o leiaf 2 dechnoleg adweithydd modiwlwr bach (SMR) a'u paru â safleoedd. Fodd bynnag, nid yw GBN yn ffafrio Trawsfynydd ar gyfer y don gyntaf o brosiectau, yn bennaf oherwydd nad yw'r safle yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol cyfredol, EN-6.

Mae Cwmni Eginio wedi parhau i wneud mwy o waith i nodweddu'r safle yn fwy manwl, ac mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid gan gynnwys NDA, NRS, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Parc Cenedlaethol, i gyfoethogi gwybodaeth am y cwmpas a'r hyn y gellir ei gyflawni yn Nhrawsfynydd.

Yn ogystal, mae Cwmni Eginio wedi cefnogi gwaith prosiect ARTHUR, sy'n cael ei arwain gan adran wyddoniaeth Llywodraeth Cymru, ac astudiaeth ddichonoldeb gan M-SParc a gomisiynwyd gan Gyngor Gwynedd i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cyfleuster megis parc gwyddoniaeth. Mae gwaith ar ddatblygu Prosiectws Gogledd Cymru i gyflwyno'r cyfle a'r achos dros ddod â buddsoddiad niwclear ar draws y rhanbarth yn parhau.

Ategodd LB ymrwymiad Cwmni Eginio i gefnogi unrhyw ymdrechion i sicrhau dyfodol cynaliadwy i safle Trawsfynydd.

Sesiwn Holi ac Ateb

Rory Trappe – dywedodd nad oedd GBN wedi sylweddoli cryfder y teimlad yn Nhrawsfynydd ynglŷn â'u penderfyniad i beidio â ffafrio'r safle ar gyfer SMRau. Ailadroddodd LB y bydd Cwmni Eginio yn parhau i gefnogi Trawsfynydd i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer defnydd yn y dyfodol.

Roedd y Cadeirydd o'r farn bod cyfeiriad GBN at Nodyn Polisi 6 yn gamarweiniol. Dywedodd wrth yr aelodau bod Cyngor Cymuned Trawsfynydd wedi nodi ei siom yn glir gyda GBN. Roedd hefyd yn dymuno diolch i Gwmni Eginio am eu cefnogaeth barhaus.

Awgrymodd y Cyng MW y byddai'n fuddiol i bob Cyngor Cymuned lleol ddod at ei gilydd i sicrhau llais mwy pwerus.

10. UFA – dim wedi'i dderbyn

Wrth gloi, diolchodd y Cadeirydd eto i TW am yr holl waith a wnaed ar y safle i gefnogi addysg bellach, sicrhau cynaliadwyedd ac, wrth gwrs, datgomisiynu effeithiol ac effeithlon.

Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dyddiad: 19 Mehefin 2024
Amser: 1pm
Lleoliad: Canolfan Gynadledda a Chynefino Trawsfynydd

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 3pm.